# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 2 E+W

COMISIYNYDD Y GYMRAEG

*Swyddogaethau*

### 6 Adroddiadau 5-mlynedd: atodol E+W

(1) Wrth baratoi pob adroddiad 5-mlynedd—

(a) rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori, a

(b) caiff y Comisiynydd ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn ei dyb ef.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi pob adroddiad 5-mlynedd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi pob adroddiad 5-mlynedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfnod y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef ddod i ben.

(4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyhoeddi pob adroddiad 5-mlynedd, rhaid i'r Comisiynydd anfon copi o'r adroddiad at Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) archwilio pob adroddiad 5-mlynedd a gyflwynir iddynt, a

(b) gosod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 6 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2012/969, **ergl. 2(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 6.